



<b>Teitl:</b> <b>Title:</b>	Polisi Presenoldeb a Phrydlondeb Dysgwyr
<b>Fersiwn:</b> <b>Version</b>	2
<b>I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?</b> <b>Who does this Policy Relate to?</b>	Myfyrwyr / Students

#### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	<a href="#">EIA April 2018</a>
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i>  <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i>  An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

#### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<b>Perchennog y Ddogfen:</b> <b>Document Owner:</b>	Vice Principal - Quality		
<b>Ymgynghoriad / Consultation:</b>	Progress Coaches T&L Development Manager Progress Coach Co-ordinator		
<b>Dyddiad cymeradwyo / Date Approved</b>	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	<i>Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group &amp; date</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	19/05/21	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	-
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	-
	Corff Llywodraethu / Governing Body:	-	
<b>Dyddiad Adolygu:</b> <b>Review Date:</b>	19/05/24		

## **1. Cyflwyniad/Datganiad Polisi**

- 1.1. Mae'r Polisi hwn yn datgan fod cyfrifoldeb ar holl ddysgwyr y Coleg i fynychu pob gweithgaredd amserlenedig yn y Coleg yn brydlon, yn rheolaidd ac yn gyson. Cred y Coleg fod presenoldeb yn ffactor allweddol i ddysgwyr gwblhau cyrsiau yn llwyddiannus a chael graddau uchel. Mae presenoldeb a phrydlondeb yn ddisgwyliadau craidd mewn cyflogaeth, ac mae disgwyliadau uchel parthed y rhain yn ffurfio rhan greiddiol o gefnogi dysgwyr i fod yn barod ar gyfer byd cyflogaeth, symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch a chyflawni deilliannau graddau uwch.
- 1.2. Mae'r Polisi hwn yn egluro fod disgwyl i unrhyw ddysgwyr sy'n cofrestru ar gwrs fynychu'n llawn a bod gan y Coleg yr hawl i wahardd neu ddiddymu astudiaethau pan fydd presenoldeb yn disgyn o dan y trothwy a amlinellir yn y polisi hwn. Y mae hefyd yn amlinellu'r gefnogaeth y bydd y Coleg yn ei rhoi i ddysgwyr sydd yn gweithio tuag at gerrig milltir cytunedig i gyflawni eu targed presenoldeb neu a allai fod ag amgylchiadau lliniarol eglur sy'n effeithio ar eu ffitrwydd i astudio ac i fynychu.
- 1.3. Polisiâu eraill a pholisiâu sy'n rhyngweithio â'r polisi hwn:
  - 1.3.1. ● Polisi Ffitrwydd i Astudio
  - 1.3.2. ● Polisi Disgyblaeth Dysgwyr
  - 1.3.3. ● Canllaw Cymorth i Ddysgwyr
  - 1.3.4. ● Polisi Mynd i'r Afael â Bwlio ac Aflonyddu yn erbyn Dysgwyr
  - 1.3.5. ● Polisi Diogelu
  - 1.3.6. ● Gweithdrefnau Profiannaeth Myfyrwyr
  - 1.3.7. ● Cod Ymddygiad Myfyrwyr

## **2. Disgwyliadau Presenoldeb a Phrydlondeb**

- 2.1. Disgwylir i bob dysgwr fynychu eu dosbarthiadau amserlenedig i gyd, boed wedi'i amserlennu fel sesiynau wyneb yn wyneb neu sesiynau ar-lein. Mae hyn yn cynnwys pob dosbarth fel rhan o'r brif raglen astudio ac unrhyw gwrs/cymhwyster arall y maent wedi cofrestru arnynt, gan gynnwys Saesneg, Mathemateg, Tystysgrif Her Sgiliau, tiwtorialau personol a dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol. Yn ogystal, disgwylir i bob dysgwr fynychu'r coleg ar gais staff i ymgysylltu â dysgu a chymorth ychwanegol yn ôl yr angen.
- 2.2. Mae'r Coleg yn hyrwyddo disgwyliadau uchel ynghylch presenoldeb a phrydlondeb trwy ystod o gyfryngau a chyfleoedd, gan gynnwys gweithgareddau ymsefydlu ac mewn sesiynau bugeiliol. Mae fideos gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth yn mynd i'r afael yn benodol â phresenoldeb, a phosteri o amgylch y Coleg yn cyflwyno atgyfnerthiad positif o'r rhesymau pam fod presenoldeb yn bwysig, a'r cysylltiad â llwyddiant, cynnydd a chyflogadwyedd.
- 2.3. Mae dysgu yn y Coleg yn cynnwys amrywiaeth o brofiadau dysgu, gan gynnwys dysgu yn a thu allan i'r dosbarth, ac mae'r Coleg yn amcanu at ddatblygu dysgu annibynnol. Mae'r Coleg yn defnyddio ystod gyfoethog o ddysgu cymysg, gan gynnwys defnyddio llwyfannau dysgu ar-lein a'r adnoddau a geir ar Google Classroom, Moodle ac ati. Nod y rhain yw cyfoethogi ac ychwanegu rhagor o werth at y dysgu yn y dosbarth sy'n

digwydd yn y Coleg, ac ni ellir ei defnyddio yn lle dysgu yn y dosbarth. Yn ogystal, mae gan lawer o gyrsiau elfennau ymarferol a thasgau asesu rheoledig sy'n gofyn i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso sgiliau sydd wedyn yn cael eu hasesu yn y Coleg.

2.4.

Os na all dysgwr AB fynychu dosbarth, disgwylir iddynt hysbysu'r Coleg o'u habsenoldeb, os oes modd cyn y dosbarth ac erbyn 9.15 bob dydd. Gellir gwneud hyn trwy'r 'botwm cofnodi fy absenoldeb' ar hafan hwb myfyrwyr. Mae gan ddysgwyr dysgu yn y gwaith sydd gyda dosbarthiadau coleg eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer hysbysu cyflogwyr o unrhyw absenoldeb.

- 2.5. Disgwylir i bob dysgwr gyrraedd eu dosbarthiadau mewn da bryd fel eu bod yn barod i ddysgu ac, os oes angen, wedi'u gwisgo'n briodol mewn PPE (Cyfarpar Diogelu Personol) pan fydd y dosbarth yn dechrau. Disgwylir i ddysgwyr sy'n cyrraedd yn hwyr ddod i mewn i'r dosbarth yn gwrtais ac yn dawel, a disgwylir iddynt fynd at y tiwtor ar ddiwedd y dosbarth neu ar adeg pan nad yw hynny'n amharu ar y dysgu i esbonio'r rheswm pam eu bod yn hwyr.
- 2.6. Pan na fydd dysgwyr absennol wedi hysbysu'r coleg, bydd eu habsenoldeb yn cael ei gofnodi fel 'anesboniadwy'. Gallai hyn effeithio ar daliadau ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) a Grant Dysgu Cymru (WLG).
- 2.7. Bydd y Coleg yn hysbysu cyflogwyr o absenoldeb unrhyw ddysgwyr dysgu yn y gwaith o ddsbarthiadau Coleg, a bydd ysgolion unigol yn cael eu hysbysu o absenoldeb unrhyw ddysgwyr cyswllt ysgolion o ddsbarthiadau, yn ôl cytundebau lefel gwasanaeth gydag awdurdodau lleol a chyflogwyr.

### **3. Taliadau Seiliedig ar Bresenoldeb**

#### **3.1. Taliadau Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA)**

- 3.1.1. Bydd y Coleg yn awdurdodi taliadau i ddysgwyr cymwys lle cafwyd presenoldeb llawn (100%) ym mhob dosbarth mewn wythnos. Bydd gan ddysgwyr sy'n hysbysu'r coleg o'u habsenoldeb absenoldebau 'esboniadwy'. Nid yw hyn yn awdurdodi taliad EMA. Yn achos dysgwyr sydd â rhesymau personol neu feddygol difrifol/gwirioneddol sy'n golygu ei bod yn amhosibl iddynt fynychu, gall dysgwyr apelio at y Gwasanaethau Myfyrwyr yn erbyn penderfyniad o ddim taliad.
- 3.1.2. Bydd tîm y Gwasanaethau Myfyrwyr yn ystyried absenoldeb a thaliad EMA ar sail achosion unigol. Gofynnir i ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth i gefnogi eu rhesymau dros bob cyfnod o absenoldeb. Gallai tystiolaeth addas gynnwys tystiolaeth o apwyntiadau meddygol/deintyddol/cyfreithiol a nodiadau meddygol ar gyfer cyfnodau estynedig o absenoldeb. Nid yw'n cynnwys nodiadau gan rieni.

#### **3.2 Taliadau Grant Dysgu Cymru (WLG)**

- 3.1.3. Bydd y Coleg yn awdurdodi taliadau ar gyfer dysgwyr cymwys am y tymor cyntaf ar ôl pythefnos o bresenoldeb llawn. Yn Nhymhorau 2 a 3 bydd taliadau yn cael eu hawdurdodi yn dilyn presenoldeb llawn y pythefnos cyntaf ynghyd â phresenoldeb o 80% o'r tymor blaenorol. Yn achos dysgwyr sydd â rhesymau personol neu feddygol difrifol/gwirioneddol a allai rwystro'r ganran hon o

bresenoldeb, gall dysgwyr apelio at y Gwasanaethau Myfyrwyr a fydd yn trafod opsiynau sydd ar gael iddynt.

### 3.2. Cronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF)

- 3.2.1. Disgwylir i ddysgwyr a ariennir ar gyfer llefydd mewn meithrinfa trwy gronfa FCF fynychu dosbarthiadau tra bod eu plant yn bresennol mewn meithrinfeydd ar y safle ac oddi ar y safle. Nid yw dyddiau astudio yn cael eu hariannu, yn wahanol i ddyddiau ar leoliad. Mae cofrestri yn cael eu gwirio yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod dysgwyr yn ymlynu wrth y cytundeb a arwyddir ar ddechrau lle mewn meithrinfa. Bydd diffyg presenoldeb am dair wythnos heb gytundeb blaenorol yn arwain at ddiddymu'r arian i'r dysgwr ar gyfer y feithrinfa. Mewn amgylchiadau eithriadol, dylai dysgwyr drafod y rhain gyda Gwasanaethau'r Myfyrwyr.

## 4. Dysgwyr gyda Phroblemau Presenoldeb Posibl sy'n Bodoli'n Barod

- 4.1. Pan fydd gan ddysgwr reswm iechyd/llesiant sylfaenol a allai eu hatal rhag mynychu'r Coleg yn rheolaidd neu am gyfnodau hir o amser, dylai'r dysgwr ddatgelu hyn yn y cyfweiliad cyn-cofrestru. Bryd hynny, bydd y tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol yn asesu unrhyw anghenion cefnogi ychwanegol a bydd trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r dysgwr i lwyddo yn y Coleg, yn unol â'r Canllaw Cymorth i Ddysgwyr.
- 4.2. Fe allai'r Coleg argymhell addasu rhaglen ddysgu ar gyfer dysgwr unigol er mwyn cefnogi eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad yn y Coleg. Gallai hyn gynnwys lleihau'r nifer o unedau a astudir neu ddileu rhai o ofynion ychwanegol y rhaglen ddysgu, er enghraifft y Dystysgrif Her Sgiliau neu gymhwyster TGAU. Bryd hynny, ystyrir yn llawn a yw'r cwrs y mae'r dysgwr yn gwneud cais amdano yn briodol ac a fyddant yn gallu ymdopi â gofynion y cwrs gydag addasiadau angenrheidiol.
- 4.3. Os oes gan y Coleg reswm da dros gredu y bydd y dysgwr yn cael trafferth ymdopi â'r cwrs, fe allai'r Coleg argymhell cyfnod prawf lle bydd y dysgwr, tîm y cwricwlwm a'r tîm ADY yn gallu gwerthuso pa mor dda y mae'r dysgwr yn ymdopi a gwneud addasiadau neu newidiadau angenrheidiol i'w rhaglen ddysgu. Gallai hyn gynnwys newid y cwrs, newid maint y rhaglen neu'r lefel o astudio, mewn cytundeb â'r dysgwr. Os bydd dysgwr yn anghytuno ag addasiad rhaglen (fel yr amlinellir), bydd y Coleg yn argymhell amod prawf i gofrestru, a fydd yn galluogi monitro cynnydd y dysgwr yn ofalus (fel yr amlinell yn adran 10).
- 4.4. Pan fydd gan y dysgwr hanes o anghenion personol ac emosiynol a allai atal presenoldeb, bydd y Coleg yn gweithio gyda'r dysgwr i weithredu'r gefnogaeth sydd ei hangen i'w helpu i setlo'n dda yn y Coleg. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Thiworiaid Personol/Hyfforddwyr Bugeiliol a gweithio gyda thîm TRAC i ddynodi'r dysgwyr hyn, a allai fod yn hyglwyf. Mae TRAC yn dîm sy'n ymroddedig i gefnogi'r dysgwyr sydd mewn perygl mwyaf o adael Coleg. Fe allai'r dysgwyr dynodedig hyn fod â thargedau cytunedig ar gyfer presenoldeb a rhoddir cefnogaeth ac anogaeth i'w helpu i gyflawni'r rhain.

- 4.5. Fe allai hyn gynnwys dysgwyr gyda phroblemau presenoldeb difrifol blaenorol, plant y gofelir amdanynt a gadawyr gofal. Gallai hefyd gynnwys rhieni a gofalwyr a allai fod angen cymorth i gael gfael ar wasanaethau gofal plant a chymorth ariannol. Gallai hefyd gynnwys dysgwyr gyda phroblemau pryder difrifol.

## **5. Dysgwyr gyda Phroblem sy'n Dod i'r Amlwg sy'n Atal Presenoldeb Dros Gyfnod o Amser**

- 5.1. Pan fydd dysgwr sydd wedi cofrestru ar gwrs yn datblygu problem sy'n eu hatal rhag mynychu'r Coleg am gyfnod o amser hirach na phythefnos, bydd y Coleg yn cysylltu â'r dysgwr i drafod opsiynau cefnogi. Bryd hynny, fe allai'r Coleg weithredu'r 'polisi ffitrwydd i astudio'. Bydd y Coleg yn ceisio cefnogi'r dysgwr lle bo modd trwy opsiynau dysgu cymysg yn y tymor byr. Fodd bynnag, os bydd y dysgwr yn methu ag astudio'n annibynnol yn y tymor byr a chyflwyno gwaith oherwydd eu cyflwr, ac os yw'r cyfnod o absenoldeb dros gyfnod hirach o amser, yna fe allai'r Coleg benderfynu tynnu'r dysgwr yn ôl o'u hastudiaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd honno.

## **6. Attendance Support For Learners**

- 6.1. Ar ddechrau'r flwyddyn golegol, bydd y Coleg yn ceisio cefnogi dysgwyr a allai fod yn teimlo'n hyglwyf neu'n unig mewn amgylchedd dysgu mwy a newydd. Bydd timau cwricwlwm yn canolbwyntio ar weithgareddau adeiladu tîm a thorri'r garw adeg ymsefydlu er mwyn sicrhau fod y dysgwyr i gyd yn gwneud ffrindiau newydd ac yn ymgartrefu'n dda yn y Coleg.
- 6.2. Lle ceir pryderon ynghylch presenoldeb dysgwr, bydd y Coleg yn ceisio rhoi'r dysgwr yn ôl ar ben ffordd a mynychu. Mae presenoldeb a phrydlondeb pob dysgwr yn cael eu monitro yn ofalus gan diwtoriaid personol a thimau cwricwlwm. Pan fydd presenoldeb yn disgyn o dan 90% a phan fydd dysgwyr yn hwyr i'r dosbarth yn aml, cynhelir trafodaethau dilynol gyda'r dysgwyr ynghylch eu presenoldeb/ prydlondeb a'r rhesymau. Bydd camau sy'n deillio o hyn yn cael eu cofnodi ar EBS-OnTrack fel rhan o'u cynllun dysgu unigol. Gallai hyn hefyd gael ei drafod mewn cyfarfodydd adolygu.
- 6.3. Lle daw patrwm o absenoldeb i'r amlwg, gall y Coleg ddefnyddio staff tîm TRAC i gefnogi dysgwyr. Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn cynnwys swyddogion presenoldeb ac ymgysylltu a fydd yn gweithio gyda dysgwyr i'w helpu i aros yn y coleg, cefnogi eu hanghenion a'u cael i ailafael mewn dysgu. Gosodir targedau cerrig milltir cytunedig ar bresenoldeb a bydd y Coleg yn disgwyl i'r dysgwr weithio'n bositif tuag at y rhain, gyda chefnogaeth mewn grym i'w helpu i gyflawni hyn, lle bo angen.
- 6.4. Mae'r Coleg hefyd yn cynnig ystod o wasanaethau cefnogi myfyrwyr gan gynnwys cefnogaeth gyda phryder, cwnsela, cefnogaeth i ddysgwyr sy'n mynd yn ddigartref a chymorth ariannol i ddysgwyr sy'n wynebu caledi gwirioneddol. Bydd tîm y Gwasanaethau Myfyrwyr yn cydweithio'n agos ag unrhyw ddysgwr sydd angen cymorth ac yn eu cefnogi i sicrhau eu bod yn dal i fynychu.

## **7. Diffyg Presenoldeb Oherwydd Bwlio neu Aflonyddu**

- 7.1. Os bydd unrhyw ddysgwr yn dweud eu bod yn teimlo'n anniogel i ddod i'r Coleg, ceir ymchwiliad trylwyr i'r holl ffactorau a allai ymwneud â'r dysgwr, gan gynnwys unrhyw honiadau o fwlio neu aflonyddu, yn unol â Pholisi ar gyfer mynd i'r afael â Bwlio ac Aflonyddu yn erbyn Dysgwyr. Y flaenoriaeth i'r rheiny sy'n ymchwilio a delio gydag unrhyw ddysgwr yn y sefyllfa hon fydd ailintegreiddio'r dysgwr yn ôl i amgylchedd dysgu diogel er mwyn lleihau unrhyw amhariad ar ddysgu, gan sicrhau llesiant y dysgwr.

## **8. Gwobrwyo Presenoldeb**

- 8.1. Pan fydd dysgwyr wedi cynnal y lefelau uchel o bresenoldeb a ddisgwylir gan y Coleg, bydd y Coleg yn dathlu hyn ac yn cofnodi'r cyrhaeddiad fel y gall dysgwyr ei rannu gyda darpar gyflogwyr. Cofnodir ystadegau presenoldeb ar adroddiad pob dysgwr.

## **9. Camau Adfer Presenoldeb a Phrydlondeb**

- 9.1. Pan fydd presenoldeb yn is na'r targed sydd wedi'i bersonoli, a phatrymau presenoldeb/ prydlondeb i ddosbarthiadau yn peri pryder, bydd yr Anogwr Cynnydd yn ymdrechu i archwilio'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb cyn cynnig cefnogaeth. Os bydd problemau presenoldeb yn parhau, fe allant alw ar y broses ddisgyblaethol i geisio gwella presenoldeb. Bydd hyn yn cynnwys camau anffurfiol, er enghraifft 'pryderon' a symud ymlaen at gam terfynol y broses ddisgyblaethol trwy rybuddion llafar i rybuddion ysgrifenedig ac yn olaf at y rhybudd ysgrifenedig terfynol. Yn y camau rhybuddio ffurfiol, gosodir targedau presenoldeb sydd angen i'r dysgwyr gadw atynt. Os, ar ôl y rhybudd ysgrifenedig terfynol, y bydd presenoldeb yn parhau i fod yn is na'r targed presenoldeb cytunedig a bod yna effaith andwyol difrifol ar gyrhaeddiad, fe allai'r Coleg ofyn i'r dysgwr adael y Coleg.

## **10. Trefniadau Profiannaeth**

- 10.1. Pan fydd dysgwr wedi cael problemau presenoldeb difrifol sydd wedi rhwystro cynnydd y dysgwr dan sylw yn eu blwyddyn astudio flaenorol, mae gan y Coleg yr hawl i argymhell fod cofrestru ar raglenni astudio newydd yn dibynnu ar gyfnod prawf fel yr amlinellir yng ngweithdrefnau profiannaeth y Coleg.

## **11. Dysgwyr sy'n Rhoi'r Gorau i Fynychu Pob Dosbarth**

- 11.1. Os bydd dysgwr yn rhoi'r gorau i fynychu pob dosbarth yn y Coleg a ddim yn hysbysu'r Coleg o'r rheswm dros eu habsenoldeb, gwneir pob ymdrech resymol i gysylltu â'r dysgwr. Gallai hyn fod ar y ffôn, trwy eu he-bost Coleg, cyfrif e-bost personol neu trwy lythyr. Os, ar ôl pedair wythnos o absenoldeb parhaus o bob dosbarth heb unrhyw gysylltiad rhwng y Coleg a'r dysgwr, bydd gan y Coleg yr hawl i gymryd yn ganiataol fod y dysgwr wedi gadael y Coleg ac yn mynd ati i ddiddymu'r dysgwr o'u rhaglen astudio yn ysgrifenedig. Bryd hynny, gall y dysgwr ddod i'r Coleg i drafod opsiynau ar gyfer

astudio yn y dyfodol, fodd bynnag, bydd cofrestru yn dibynnu ar gyfnod prawf a fydd yn galluogi tiwtoriaid i gefnogi a monitro'r dysgwyr yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn mynychu'n rheolaidd ac yn cael eu cefnogi i lwyddo ar eu rhaglen ddysgu newydd.

## 12. Atodiad

- 12.1. [Siart Llif Presenoldeb](#). - bydd yr holl rifau yn y siart llif yn cael eu disodli gan yarged presenoldeb personol ar gyfer y tymor.
- 12.2. Ychwanegwyd mewn cyfeiriad at 'targed presenoldeb personol' – ffigurau presenoldeb yn unol â'r Strategaeth Ansawdd

Mae targedau Presenoldeb Personol yn gysylltiedig â lefel a rhaglen astudio'r dysgwr.

### Targedau Presenoldeb Personol

1. Lleiafrif >80% (E3)
2. Lleiafrif >84% (L1)



3. Minimum >85% (L2)
4. Minimum >86% (L3)
5. Minimum >90% (Alevel)